


Clafr Defaid



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

BETH SY'N EI ACHOSI?



Psoroptes ovis: mae'r gwiddonyn bychan llawn dwf yn welw, yn anodd eu gweld yn erbyn y cnu ac yn 1mm o faint yn unig. Mae'n treulio ei gylchred bywyd cyfan ar y ddafad a gall atgennedlu pob 14 diwrnod felly gall un gwiddonyn achosi problemau iechyd sylweddol yn eithaf sydyn. Gall hefyd oroesi oddi ar y ddafad am 15-17 diwrnod felly mae angen safonau bioddiogelwch da er mwyn atal ail heintiad yn dilyn triniaeth.

SUT MAE DEFAID YN CAEL EU HEINTIO?

Gall y gwiddonyn gyrraedd y ddafad trwy gyswllt agos mewn marchnadoedd, mewn cerbydau cario anifeiliaid, oddi ar byst rhwbio a ddefnyddir gan ddefaid eraill neu o ganlyniad i bigo gwlân oddi ar ddrain. Gellir hefyd ei drosglwyddo gan gcontractwyr cneifio yn symud o fferm i fferm oddi ar eu hoffer neu ddillad.

PRYD FYDDAN NHW'N CAEL EU HEFFEITHIO?

Fel arfer yn ystod misoedd oer a gwlyb mis Medi hyd at fis Mawrth, ond mewn rhai achosion yn ystod yr haf ar ddefaid gyda chnu cyflawn megis wŷn a hesbinod.

BETH YW'R ARWYDDION?



Mae ysgarthion y gwiddonyn yn achosi cosi difrifol gan arwain at friwiau ar groen y ddafad. Heb ei drin, gall y briwiau ledaenu ac yn aml bydd defaid yn colli gwlân gan ddangos croen sy'n gwaedu oddi tano. Mae'r defaid yn mynd yn fwy aflonydd, yn cicio eu coesau, yn rhwbio postion ac yn taflu eu pennau er mwyn ceisio lleddfu'r llid. O ganlyniad, mae eu sgôr cyflwr corff yn dirywio ac mae cynhyrchiant yn cael ei effeithio.

BETH DDYLWN I'W WNEUD OS BYDDAFYN CREDU BOD CLAFR AR FY NEFAID?

Trafodwch gyda'ch milfeddyg i gael diagnosis cywir a chynghor ynglŷn â chynllun triniaeth briodol

- Rhowch driniaeth i bob dafad a brynir i mewn a'u cadw mewn cwarantîn
- Glanhewch y siediau a lorïau ar ôl cario defaid a brynwyd neu ddefaid gyda chlafr
- Gweithiwch gyda'ch cymdogion i reoli clafr yn eich ardal chi
- Gwnewch welliannau i ffensys er mwyn atal defaid rhag cymysgu
- Gweithiwch gyda'ch milfeddyg i gynnwys rheolaeth clafr defaid yn eich cynllun rheoli iechyd anifeiliaid – gwell atal na gwella.

Gwybodaeth bellach: Cyswllt Ffermio, HCC, SCOPS, NADIS



www.llyw.cymru/cyswlltffermio